



Inspecting policing
in the public interest

**Plismona yng lymder:
Flwyddyn yn
ddiweddarach**

**Heddlu Dyfed-Powys
Gorffennaf 2012**

Cynnwys

Ynglŷn â'r arolwg hwn	3
Crynodeb	4
Arian – cwrdd â'r cynilion	6
Beth yw'r her ariannol yn Heddlu Dyfed-Powys?	6
Pobl – ad-drefnu'r gweithlu	7
Beth yw'r effaith ar y gweithlu?	7
Beth yw'r effaith ar y rheng flaen?	8
Nifer a chyfran y swyddogion, CSOs a staff mewn rolau rheng flaen	8
Nifer a chyfran y swyddogion heddlu mewn rolau rheng flaen	9
Y cyhoedd – adolygu'r gwasanaeth rydych yn ei dderbyn	10
Pa gyfran o swyddogion heddlu a swyddogion cymorth cymunedol sy'n weladwy ac sydd ar gael i'r cyhoedd??	10
Sut allwch gael mynediad at wasanaethau plismona sy'n newid?	10
A oes unrhyw newid wedi bod o ran lefelau troseddu dros y flwyddyn ddiwethaf?	11
A yw gwaith arolygu'r llu ei hunan yn dangos unrhyw newid o ran boddhad y cyhoedd â'r gwasanaeth maent yn ei ddarparu?	12

Ynglŷn â'r arolwg hwn

Ym mis Hydref 2010, cyhoeddodd y Llywodraeth y byddai'r cyllid canolog a ddarperir i'r Gwasanaeth Heddlu'n gostwng gan 20% yn y bedair blynedd rhwng Mawrth 2011 a Mawrth 2015.

Cynhaliodd Arolygiaeth Cwnstablïaeth Ei Mawrhydi (HMIC) arolygiad o bob un o'r 43 o heddluoedd yn Lloegr a Chymru yng Ngwanwyn 2011, er mwyn gwirio sut roeddynt yn bwriadu cwrdd â'r her hon. Pan gyhoeddwyd y canlyniadau ym mis Gorffennaf 2011 (chwiliwch am 'Pennu Gwerth yr Heddlu' ar www.hmic.gov.uk), gwnaethom ymrwymiad i ddychwelyd un flwyddyn yn ddiweddarach er mwyn adrodd ar gynnydd, ac er mwyn asesu a oedd unrhyw effaith wedi digwydd ar y gwasanaeth a ddarperir i'r cyhoedd.

Mae adroddiad thematig, *Plismona yng lymder: Flwyddyn yn ddiweddarach* yn casglu ynghyd y canfyddiadau gan bob un o'r 43 o heddluoedd ac yn edrych ar y darlun yn Lloegr a Chymru.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r canfyddiadau ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys, ac fe'i seilir ar ddata a ddarparwyd ganddynt ym mis Chwefror 2012.¹

Bydd HMIC yn parhau i fonitro'r cynnydd a wneir gan y Llu, ac i gyhoeddi'r canlyniadau ar ein gwefan (www.hmic.gov.uk).

1 Talgrynnir ffigyrau (ffigyrau ariannol at y miliwn agosaf a ffigyrau'r gweithlu at y 10 agosaf) ac mae ffigyrau ariannol mewn prisiau arian parod.

Crynodeb

Mae'r her i heddluoedd ac awdurdodau heddlu'n fwy na mantoli'r llyfrau yn unig, hefyd mae rhaid iddynt drawsffurfio'r ffordd maent yn cyflawni plismona a'i wneud yn fwy effeithlon, fel bod y cyhoedd yn gallu parhau i dderbyn gwasanaethau gwell.

Mae Dyfed-Powys yn llu bach, ac nid oes ganddo gyllideb fawr o'i chymharu â llawer yn Lloegr ac mae ganddo'r gyllideb leiaf yng Nghymru.

Mae ganddo hanes da iawn o leihau cost trwy reolaeth ofalus a datblygiad o'r llu ac ar ôl adnabod yr angen i leihau costau ymhell cyn i'r Arolwg Gwariant Cynhwysfawr gael ei gyflwyno. Tra bod hwn wedi'u rhoi mewn sefyllfa dda i gwrdd â heriau ariannol arolwg gwariant cynhwysfawr 2010 ac fel canlyniad, maent ar hyn o bryd mewn sefyllfa dda i gyflawni eu targed cynilo erbyn Mawrth 2015.

Mae'r llu wedi cyflwyno model newydd am y ffordd maent yn trefnu eu hunedau plismona lleol yn 2011 o dan Gweithrediad Sage gyda 13 o ardaloedd plismona newydd â phob un yn cael ei harwain gan Arolygydd Lleol. Hefyd mae wedi ad-drefnu ei bencadlys trwy leihau'r nifer o swyddogion a staff heddlu sy'n gweithio yno gan wneud cynilion o 20%. Bydd y cyflwyniad diweddar o 74 o Swyddogion Cymorth Cymunedol ychwanegol, a ariannir gan Lywodraeth Cymru, yn darparu cymorth ychwanegol wrth blismona cymunedau ar draws Dyfed a Phowys.

Ar hyn o bryd maent yn rhannu adeiladau cyfathrebu pencadlys gyda gwasanaethau tân ac ambiwlans ond hefyd maent yn asesu a ellid gwneud cynilion eraill trwy leihau'r nifer o orsafoedd heddlu sydd mewn defnydd a thrwy rannu swyddfeydd gyda gwasanaethau cyhoedus eraill.

Mae Heddlu Dyfed Powys wedi bod yn rhannu staff gyda heddluoedd eraill ar draws Cymru ers nifer o flynyddoedd er mwyn diogelu'r cyhoedd, gwella gwasanaethau plismona a chynilo arian ac mae'n bwriadu cynyddu hwn yn y dyfodol. Yn fwy diweddar, mae'r penodiad o gyd-bennaeth Technoleg Gwybodaeth a rennir gyda Cyngor Sir Gaerfyrddin, yn golygu y gellir gwneud hyd yn oed mwy o arbedion effeithlonrwydd a chynilion. Ni ddylid tanbrizio'r her ynghylch cyflawni'r math hwn o weithio ar y cyd: ond mae ymrwymiad cryf gan y llu, awdurdod, partneriaid a Llywodraeth Cymru i sicrhau ei fod yn gweithio.

Oherwydd y newidiadau mae'n eu gwneud bydd Heddlu Dyfed-Powys yn gallu mantoli'r llyfrau ac hefyd gynyddu'r gyfran o'i weithlu sydd mewn rolau ymladd trosedd rheng flaen. Erbyn 2015 bydd 73% o'i weithlu ar y rheng flaen, sydd yn is na'r gyfran ar gyfer Lloegr a Chymru fel cyfanrwydd. Fodd bynnag, mae'r gyfran o swyddogion heddlu ar y rheng flaen yn cynyddu dros yr un cyfnod o 88% i 94%, yn golygu bod cyfran uwch o swyddogion heddlu ar y rheng flaen na sydd mewn lluoedd eraill. Mae troseddu'n lleihau yn Nyfed-Powys er bod hwn ar raddfa is nag yn Lloegr a Chymru fel cyfanrwydd. Roedd 86% o ddiodefwyr yn Nyfed-Powys yn fodlon ar y gwasanaeth gan Heddlu Dyfed-Powys, sydd yn cydymffurfio â chyfraddau boddhad yn Lloegr a Chymru fel cyfanrwydd.

Mae adrannau dilynol yr adroddiad hwn yn archwilio i: arian (faint sydd angen i Heddlu Dyfed-Powys ei gynilo a'u cynnydd wrth gyflawni hwn); pobl (eu newidiadau arfaethedig i nifer a math y gweithlu ac effaith hyn ar y rheng flaen); a'r effaith ar wasanaethau i'r cyhoedd. Rydym wedi edrych ar y meysydd hyn gan eu bod yn bwysig wrth helpu'r cyhoedd, nid yn unig i ddeall sut mae'ch llu'n gwneud cynilion, ond sut maent yn parhau i wella'r gwasanaethau rydych yn eu derbyn.

Arian – cwrdd â'r cynilion

Beth yw'r her ariannol yn Heddlu Dyfed-Powys?

£12 miliwn – dyma'r swm y bydd angen i Heddlu Dyfed-Powys ei gynilo rhwng 2011 a 2015 (yn seiliedig ar amcangyfrifiadau'r llw). Mae 38 llw yn Lloegr a Chymru â chynilion mwy i'w gwneud fel cyfran o'u cyllidebau cyffredinol.

Erbyn Gwanwyn 2012, roedd Dyfed-Powys wedi datblygu cynlluniau i amlinellu sut y byddant yn cyflawni £12m (100%) o'u gofyniad ynghylch cynilion.



Seilir cynllun pedair-blynedd Heddlu Dyfed-Powys ar gynilo £5m erbyn Mawrth 2012 (h.y. ym mlwyddyn gyntaf y gostyngiadau cyllideb). Adroddodd y llw eu bod eisoes wedi cynilo £5.1m. erbyn Rhagfyr 2011.

Yn ogystal â chyllid gan y Llywodraeth, mae lluoedd hefyd yn derbyn arian o'r dreth gyngor leol. Mae'r awdurdod heddlu wedi penderfynu cynyddu gan 5% y swm o arian rydych yn ei dalu ar gyfer plismona o'ch treth gyngor. Dyma un o 22 llw yn Lloegr a Chymru ble fydd yn cynyddu.

O fewn cynlluniau'r llw mae nifer o ragdybiaethau ynghylch costau yn y dyfodol, yn cynnwys codiadau cyflog, graddfa chwyddiant a'r lefel o gyllid y bydd yn ei derbyn o dreth gyngor. Os bydd y rhain yn newid gallai hwn effeithio ar gyfanswm y cynilion mae rhaid i'r llw ddod o hyd iddo.

Bydd lluoedd yn parhau i ddatblygu manylion eu cynlluniau rhwng nawr a 2015. Efallai y bydd cyfanswm y cynilion mae angen iddynt ddod o hyd iddo yn codi neu leihau felly wrth iddynt adolygu eu rhagdybiaethau a diweddarau eu cynlluniau.

Pobl – ad-drefnu'r gweithlu

Beth yw'r effaith ar y gweithlu?

120 – nifer y swyddi mae'r llun bwriadu eu torri erbyn 2015. Bydd 50 o'r rhain yn swyddi swyddogion heddlu. Mae hwn yn ostyngiad o 5% o ran swyddi swyddogion heddlu, o'i gymharu â gostyngiad o 10% ar draws Lloegr a Chymru.

Oherwydd bod 81% o gyllidebau heddlu (ar gyfartaledd) yn cael ei wario ar gostau staff, nid yw'n syn bod lluoedd ar draws Lloegr a Chymru yn bwriadu cyflawni rhan fwyaf eu cynilion trwy leihau'r nifer o swyddogion heddlu, swyddogion cymorth cymunedol (CSOs) a staff heddlu maent yn eu cyflogi.

Yn ôl data a ddarperir gan y llun yn Chwefror 2012, mae Dyfed-Powys yn bwriadu gwneud y newidiadau dilynol i'w weithlu rhwng Mawrth 2010 a Mawrth 2015. Erbyn Mawrth 2012 bydd y llun wedi cyflawni i gyd o'r gostyngiad angenrheidiol yn eu gweithlu. (Rydym yn defnyddio Mawrth 2010 fel ein man cychwyn yma gan fod llawer o luoedd wedi dechrau lleihau eu gweithlu yn y flwyddyn cyn gweithredu'r toriad o ran cyllid, gan ragweld y byddai rhaid iddynt wneud cynilion nes ymlaen).

	31 Mawrth 2010 (gwirioneddol)*	Newid Arfaethedig 31 Mawrth 2010 - 31 Mawrth 2015*	% newid yn Nyfed- Powys	% newid dros Lloegr a Chymru:
Swyddogion	1,190	-50	-5%	-10%
CSOs	80	70	79%	-10%
Staff yr Heddlu**	720	-130	-18%	-19%

Sylwer:

Mae* 2010 yn giplun o'r nifer o bobl mewn swydd, tra bod data 2015 yn nifer rhagamcanol o swyddi.

Talgyrnnir yr holl ffigurau o ran y gweithlu i'r 10 agosaf; felly efallai na fydd colofnau'n adio'n iawn. Yn nata gwaelodlin y gweithlu (Mawrth 2010), cynhwysir ffwythiant 'Arall' o fewn y ffigur nad ydynt ar y rheng flaen. Mae hwn yn cynnwys staff sy'n absennol o'u dyletswydd oherwydd absenoldeb mamolaeth / tadolaeth, seibiant gyrfa, addysg lawn-amser neu atal dros dro a'r rhai hynny sydd ar absenoldeb hirdymor (salwch, absenoldeb tosturiol, arbennig a di-dâl). Ym Mawrth 2010 gwnaeth y ffwythiant "arall" 1 y cant o'r holl weithlu ar draws Lloegr a Chymru. Darparwyd y

data rhagamcanol hwn ar gyfer Mawrth 2015 gan luoedd, ac mae lluoedd wedi cyllidebu ar gyfer hwn mewn ffyrdd gwahanol. Fel canlyniad bydd rhywfaint o amrywioldeb yn y data hwn wrth ei ddefnyddio at ddibenion cymharu.

****Sylwer:** mae ffigyrau gwirioneddol staff heddlu ar gyfer 2010 yn cynnwys Swyddogion Dynodedig. Ni chynhwysir Swyddogion Dynodedig yn ffigyrau tybiedig 2015.

Beth yw'r effaith ar y rheng flaen?

Mae HMIC yn diffinio pobl sy'n gweithio ar reng flaen yr heddlu fel: "y rhai hynny sy'n cysylltu â'r cyhoedd bob dydd ac sy'n ymyrryd yn uniongyrchol i gadw pobl yn ddiogel ac i orfodi'r gyfraith".


73% – cyfran yr holl weithlu (h.y. swyddogion, CSOs a staff) mae Heddlu Dyfed-Powys yn tybio y byddant ar y rheng flaen erbyn 2015.

94% – cyfran y swyddogion heddlu mae'r llun tybio'n benodol y byddant yn gweithio ar y rheng flaen erbyn 2015, cynnydd 5 pwynt canran o 2010.

Nifer a chyfran y swyddogion, CSOs a staff mewn rolau rheng flaen

Bydd y **nifer** o swyddogion, CSOs a staff (h.y. holl weithlu'r llun) yn gweithio ar y rheng flaen yn cynyddu o 1,410 ym Mawrth 2010 i 1,380 rhagamcanol erbyn Mawrth 2015.


Yn seiliedig ar y ffigyrau hyn, bydd y **gyfran** o holl weithlu Dyfed-Powys a ddyrannir i rolau rheng flaen yn cynyddu o 71% i 73%. Mae hwn yn cymharu â chynnydd cyffredinol ar draws Lloegr a Chymru o 67% i 74%.



Nifer a chyfran y swyddogion heddlu mewn rolau rheng flaen

O edrych yn benodol ar swyddogion heddlu: bydd y **nifer** o swyddogion sy'n gweithio ar y rheng flaen yn cynyddu o 1,060 ym Mawrth 2010 i 1,070 rhagamcanol erbyn Mawrth 2015. Bydd y nifer sy'n gweithio mewn rolau nad ydynt ar y rheng flaen yn gostwng o 140 i 70.

Yn seiliedig ar y ffigyrau hyn, bydd y **gyfran** o swyddogion heddlu Dyfed-Powys a ddyrannir i rolau rheng flaen yn cynyddu o 88% i 94% fel mae'r siart dilynol yn ei ddangos. Mae hwn yn is na'r ffigwr ar gyfer Lloegr a Chymru.



Y cyhoedd – adolygu'r gwasanaeth rydych yn ei dderbyn

Pa gyfran o swyddogion heddlu a swyddogion cymorth cymunedol sy'n weladwy ac sydd ar gael i'r cyhoedd??

68% – y gyfran o swyddogion heddlu a CSOs mae Dyfed-Powys yn eu dyrannu i rolau gweladwy (fel swyddogion sy'n ymateb i alwadau 999, sy'n delio â damweiniau traffig ffordd difrifol neu sy'n patrolio mewn cymdogaethau). Mae hwn yn fwy na ffigwr Lloegr a Chymru.

Mae HMIC yn diffinio 'gweladwy' fel cyflogeion yr heddlu sy'n gwisgo iwniform a sy'n gweithio'n bennaf yn gyhoeddus ac mae 'ar gael' yn golygu swyddogion heddlu a CSOs sydd yn wirioneddol barod ar gyfer dyletswydd (yn hytrach na bod ar gwrs hyfforddi, mynychu'r llys, i ffwrdd o shifft, ar absenoldeb, ac yn y blaen).

Mae'n bwysig nodi bod y gwaith a wneir gan y rhai hynny mewn rolau gweladwy'n cynrychioli rhan o'r darlun plismona'n unig. Mae angen i Brif Gwnstablau ddyrannu adnoddau i lawer o swyddogaethau eraill er mwyn diogelu'r cyhoedd, fel gwrthderfysgaeth, troseddu difrifol a chyfundrefnol a diogelu plant (i enwi ond tair).

Mae ymchwil wedi dangos bod pobl sy'n gweld yr heddlu wrth eu gwaith mewn iwniform o leiaf unwaith yr wythnos yn fwy tebygol o ddangos hyder yn eu lleol (gweler ein hadroddiad 2011 *Amseroedd Anodd*, sydd ar gael ar www.hmic.gov.uk).

Yn ddiweddar ystyriodd HMIC a oes gan Dyfed-Powys swyddogion heddlu sydd ar gael pan yw'n fwy tebygol y bydd eu hangen, ailadroddiad o arolwg a gynhalion ni ddiwethaf yn 2010. Roedd hwn yn dangos bod gostyngiad o ran swyddogion heddlu a CSOs a oedd ar gael mewn rolau gweladwy ar adegau allweddol.

Sut allwch gael mynediad at wasanaethau plismona sy'n newid?

Mae lluoedd yn archwilio i ffyrdd gwahanol y gall y cyhoedd gael mynediad at wasanaethau plismona. Maent yn gwneud mwy o ddefnydd o'r rhyngwyd a chyfryngau cymdeithasol er mwyn cyfathrebu â phobl ac yn adolygu'r nifer o bwyntiau mynediad

wyneb yn wyneb sydd eu hangen arnynt.

Erbyn 2012 bydd Dyfed-Powys yn gostwng y nifer o gownteri blaen gan 1 (o gymharu â 2010) ond bydd y nifer o leoliadau eraill ble gallwch gael mynediad ffisegol at wasanaethau plismona e.e. llyfrgelloedd, adeiladau awdurdod lleol yn aros yr un peth.

A oes unrhyw newid wedi bod o ran lefelau trosedd dros y flwyddyn ddiwethaf?

2% – y gostyngiad o ran lefelau trosedd cofnodedig yn gyffredinol yn Nyfed-Powys rhwng y blynyddoedd yn dod i ben yn Rhagfyr 2010 a Rhagfyr 2011 (o'i gymharu â chwymp o 3% ar draws Lloegr a Chymru).

Tasg gyntaf yr heddlu yw cwtdgi ar drosedd a chadw'r heddwch; ac yn 2010, dywedodd yr Ysgrifennydd Cartref Theresa May ei bod yn disgwyl i heddluoedd ac awdurdodau wneud toriadau ariannol ond parhau i gwtogi ar drosedd a hynny heb niweidio'r rheng flaen.

Yn seiliedig ar y nifer o droseddau i bob 1000 o'r boblogaeth a gofnodwyd rhwng y blynyddoedd yn dod i ben yn Rhagfyr 2010 a Rhagfyr 2011, daeth Heddlu Dyfed-Powys yn 1af allan o 42^o luoedd (ble mae cyntaf yn golygu'r gyfradd trosedd isaf).

Mae'r tabl isod yn dangos sut mae cyfraddau trosedd wedi newid rhwng y blynyddoedd yn dod i ben yn Rhagfyr 2010 a Rhagfyr 2011 (ni chynhwysir ASB oherwydd nad yw data ar gael ar gyfer yr yn cyfnod o amser: fodd bynnag, bydd HMIC yn archwilio i'r ffordd yr eir i'r afael â'r broblem hon yn Nyfed-Powys mewn adroddiad ar wahân, a gaiff ei gyhoeddi ar ein gwefan nes ymlaen ym Mai 2012).

Math o drosedd	Gwahaniaeth rhwng y blynyddoedd yn dod i ben yn Rhagfyr 2010 a Rhagfyr 2011 yn Nyfed-Powys	Gwahaniaeth rhwng y blynyddoedd yn dod i ben yn Rhagfyr 2010 a Rhagfyr 2011 ar draws Lloegr a Chymru
Pob Trosedd	-2%	-3%
Trosedd seiliedig ar ddioddefwyr*	-7%	-2%
Lladrad	5%	3%
Byrgleriaeth	-2%	-1%
Niwed Troseddol a Thanau Bwriadol	-10%	-9%

*Mae'r categori hwn yn cynnwys pob trosedd ble mae dioddefwr uniongyrchol - naill ai'n unigolyn, grŵp, neu sefydliad.

2 Ni chynhwysir Dinas Llundain.

Rydym wedi dewis y mathau hyn o drosedd er mwyn rhoi arwydd o natur y troseddu yn Nyfed-Powys. I gael gwybodaeth am amllder mathau eraill o drosedd yn eich ardal, ewch i www.hmic.gov.uk/crime-and-policing-comparator ble gallwch gael gwybodaeth fanylach. Hefyd byddwch yn canfod dolenni i wefan y llu ei hunan ble maent yn cyhoeddi'r ffigyrau troseddu diweddaraf.

A yw gwaith arolygu'r llu ei hunan yn dangos unrhyw newid o ran boddhad y cyhoedd â'r gwasanaeth maent yn ei ddarparu?

Wrth i luoedd ad-drefnu eu hadnoddau er mwyn cwrdd â'r her gyllidebu mae'n bwysig eu bod yn deall yr effaith ar gyflawni gwasanaeth. Un ffordd i fesuro a yw hwn yn newid yw trwy olrhain lefel boddhad y cyhoedd â'r gwasanaeth cyffredinol maent yn ei dderbyn wrth iddynt geisio cymorth yr heddlu.

Y boddhad cyffredinol ar gyfer dioddefwyr yn Nyfed-Powys yw 86% sy'n llai na'r gyfradd ar gyfer Lloegr a Chymru fel cyfanrwydd.